

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	29 Medi, 2015
PWNC	Is-grwp Amrywiaeth
PWRPAS	Diweddaru Aelodau y Pwyllgor ar waith yr is-grwp amrywiaeth a chyflwyno y rhaglen waith.
AWDUR (SWYDDOG)	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

CEFNDIR

- 1.1 Sefydlwyd yr Is-grŵp amrywiaeth ym mis Chwefror 2015 mewn ymateb i adroddiad cenedlaethol ac arweiniad yn Neddf Llywodraeth Leol (2012) i geisio cynyddu amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.
- 1.2 Bwriad yr is-grŵp oedd edrych ar sefyllfa Gwynedd yn gyfredol gan gymharu proffil aelodau etholedig y Cyngor gyda phroffil y Sir i weld a oeddent yn gymharol. Bu'r grŵp yn edrych ar ystadegau am oedran, rhyw, cefndir ethnig ac anabledd.
- 1.3 Yn dilyn dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil i'r maes, lluniwyd rhaglen waith i geisio gwneud rhywfaint o wahaniaeth ar gyfer etholiadau 2017.

Y GWAITH HYD YMA

- 2.1 Mae'r is-grŵp wedi cwrdd ambell waith dros y misoedd diwethaf ac wedi dadansoddi'r data ystadegol sydd i law am y pedwar maes. Penderfynwyd fel a ganlyn:

Cefndir ethnig: anghysonder bychan rhwng proffil y Cyngor a'r Sir, ond ddim yn flaenoriaeth i gael sylw gan y grŵp. Angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

Anabledau: Anodd dadansoddi gan fod data am y maes yn anodd i'w gael. Pencampwr Anabledau Gwynedd wedi nodi fod gwaith yn digwydd yn y maes yn gyfredol. Dim cynllun penodol gan y grŵp, ond fel uchod, angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

Rhyw: Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir – gweler graff yn atodiad B. Cynllun gwaith wedi ei lunio (gweler isod)

Oedran: Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir - eto gweler graff Atodiad B. Gwaith yn mynd rhagddo yn hyrwyddo dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor ac aelodau etholedig trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y grŵp yn awyddus i

beidio dyblygu, felly penderfynwyd bwydo unrhyw syniadau gan y grŵp trwy'r Aelod Cabinet i'r Bartneriaeth eu gweithredu lle'n bosib.

- 2.2 Mae gan y grwp rhywfaint o waith pellach i'w wneud i edrych ar wybodaeth ynghylch rhwystrau rhag sefyll i fod yn aelod etholedig, edrych ar waith ymchwil cenedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth gan gyn-aelodau ar draws Cymru i'r rhwystrau a'r cyfleon gwella, ynghyd ag ystyried y rhaglen waith cenedlaethol sydd newydd ei lansio. Wedi'r lawnsiad ar yr 17eg o Fedi, gall y grwp nawr edrych os oes cyfleon i'n galluogi i blethu ein rhaglen waith leol gyda'r gwaith cenedlaethol.
- 2.3 Bydd y grwp yn cwrdd eto ar y 12fed o Hydref i ystyried yr elfennau a nodwyd yn 2.2 uchod a llunio rhaglen waith drafft.

CAMAU NESAF

- 3.1 Yn dilyn i'r grwp gwrdd eto ym mis Hydref i lunio eu rhaglen waith, cyflwynir y rhaglen waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd i'w ystyried a'i gefnogi. Os bydd y pwyllgor yn gefnogol i weithredu, bydd yn ofynnol sicrhau mewnbwn mwy o aelodau i weithredu'r rhaglen na'r 6 aelod sydd ar yr is-grŵp yn unig.
- 2.5 Yn ogystal, mae paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cyngor, sydd ym Mai 2017, yn allweddol. Bydd angen i'r is-grŵp o'r Pwyllgor ystyried, maes o law, beth fydd y mecanwaith gorau ar gyfer cyflwyno unrhyw adolygiadau neu gynigion mewn da bryd i baratoi ar gyfer yr etholiadau hynny.


ATODIAD A

Aelodaeth gyfredol y Grŵp

Cynghorwyr	Rol
Tom Ellis	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Sian Gwenllian	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Sion Jones	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Peter Read	Pencampwr Anableddau
Gwen Griffiths	Pencampwr Amrywiaeth
Mair Rowlands	Pencampwr Plant a Phobl Ifanc

ATODIAD B

Mae'r graff isod yn darlunio gwybodaeth, fesul grwp oedran, am broffil poblogaeth Gwynedd a phroffil aelodau Gwynedd fesul rhyw. Cyflwynir er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.



Data yn gywir Chwefror 2015